**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1244
Ein cyf/Our ref EM/00136/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd – Y Pwyllgor Deisebau

26 Ionawr 2022

Annwyl Jack,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 7 Ionawr ar ran y Pwyllgor Deisebau ynghylch ailenwi Ysbyty George Thomas.

Roedd yn ddrwg gennyf ddarllen am y pryderon a fynegwyd gan y ddeiseb, fodd bynnag, nid yw o fewn pwerau Llywodraeth Cymru i fynnu bod enw'r ysbyty yn cael ei newid. Mae hwn yn fater i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Efallai y byddai'r deisebwyr yn dymuno tynnu sylw aelodau'r bwrdd iechyd at eu pryderon. Yr aelodau hyn yw'r corff uwch ar gyfer gwneud penderfyniadau o fewn y bwrdd iechyd, ac mae eu dyletswyddau'n cynnwys sefydlu ei ddiwylliant a'i werthoedd. Dyma'r manylion cyswllt:

Mr Paul Mears
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Tŷ Ynysmeurig
Parc Navigation
Abercynon
CF45 4SN

E-bost: Paul.Mears@wales.nhs.uk

CTM_BoardMember@wales.nhs.uk

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y bwrdd iechyd wedyn yn penderfynu a ydynt am symud ymlaen â chais y deisebwyr. Fodd bynnag, dylai'r deisebwyr fod yn ymwybodol y byddai angen i unrhyw drafodaethau ynghylch newid enw gynnwys y goblygiadau o ran y gost i'r bwrdd iechyd; er enghraifft y gost o newid arwyddion (ar gyfer adeiladau a cherbydau) a deunyddiau ysgrifennu, yn ogystal â'r goblygiadau ar gyfer TG a chontractau. Hefyd byddai angen i staff dreulio amser sylweddol yn cyfarfod ac yn cynllunio ar gyfer penderfynu ar enw newydd ac wedyn ei ymgorffori, a hynny ar adeg pan fo'r GIG yn gorfod canolbwyntio ar roi sylw i effeithiau parhaus y pandemig ac ar yr ymdrechion i adfer ohonynt.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services